

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Lun y 9fed o Fawrth 2026 am 8.00yh yng Nghanolfan Gymunedol Alma.

Cynghorwyr yn bresennol: Alyson Harries (Cadeirydd), Ambrose Lewis, Andrew Jones, Dyfed Davies, John Phillips, Awyn Jones, Derrick Harries & Linda Daviews

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Ann Sillars, Eirian Howells ac y Cynghorydd Sir Jean Lewis

2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**

Croesawodd Alyson Harries pawb i'r cyfarfod gan ddiolch iddynt am fod mor barod i newid y dyddiad ac amser gan fod nifer o'r Cynghorwyr mofyn cefnogi digwyddiad y CFFI yr wythnos diwethaf ac Eisteddfod yr Urdd heno.

3. **Datgan Buddiannau:**

Clerc, Liza Jones - Rhoscrugebolion

4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**

Roedd cofnodion y cyfarfod o'r 14eg o Ionawr 2026 wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. ERfod y clerc wedi nodi ei datgan budd ym mhob cyfarfod, nid oedd wedi cael ei gofnodi mewn cofnodion blaenorol, ac felly dylai cael ei nodi, heblaw am hyn, cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac fe'u llofnodwyd.

5.Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:

- Gadawodd y clerc y cyfarfod tra bod materion parthed Rhoscrugebolion yn cael eu trafod.
Wrth ddychwelyd i'r cyfarfod gofynwyd i'r clerc gysylltu gyda chyfreithwyr Redkite i drafod cynnwys yr ebost dyddiedig y 3ydd o Fawrth 2026 parthed yr ebost a dderbyniwyd wrth Agri advisor dyddiedig y 27ain o Chwefror 2026 i symud ymlaen gyda'r mynediad hanfodol yn Lleine i dir o berchnodaeth y Cyngor Bro ar Rhoscrugebolion.
- Nid oedd unrhyw gwaith atgyweirio heolydd wedi eu gwneud ar rhiw Glaspant, Velindre a Castellmawr ond roedd gwaith atgyweirio wedi ei wneud rhwng Mainwan a Blaenparsel, Bethania i Penybont a Bethania i Glaspant, ond roedd y gwaith o safon isel. Roedd yr heolydd o Y Ficerdy i Brynamlwg, Hafod i Carne a Neuadd i Alma wedi dirywio yn sylweddol ac roedd angen sylw brys arnynt.
- us wedi marw ac felly ni fyddai gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud yn y dyfodol agos. Gofynwyd i'r Cyngor Sir cael eu hysbysu fod gordyfiant yn amharu ar y droedffordd.
- Nid oedd y clerc wedi derbyn diweddariad parthed pryd fyddai'r gwaith atgyweirio i'r erydiad ar llwybr Clunfelyn yn cael ei wneud ond roedd gweithwyr wedi bod yno yn yr wythnos ddiwethaf yn torri coed oedd wedi cwmpo.
- Roedd Parc Trelech wedi derbyn grant o £25000 wrth Llywodraeth Cymru a oedd wedi cael ei ariannun gyfatebol gan y Cyngor Bro.

- Roedd Canolfan Gymedol Trelech wedi cyfarfod ac wedi cytuno i drosglwyddo lês y parc i'r Cyngor Bro. Byddai'r clerc yn dilyn hyn i fyny wedi'r gwaith adnewyddu'r parc cael ei gwblhau.

6. Gohebiaeth

a. Cafodd yr anfonebau canlynol eu hawdurdodi i'w talu

a. Gemwaith Bowen Jewellery – ysgythru cadwyn y cadeirydd - £100.00

b. Un Llais Cymru – aelodaeth - £143.00

c. Canolfan Gymdeithasol Trelech – Llogi neuadd 2022 -26 - £240.00

ch. Cyfreithwyr Red Kite – Costau cyfreithiol - £822.60 yn cynnwys TAW.

b. Roedd BT wedi ysgrifennu yn ymgynghori ar waredu a mabwysiadu blwch ffôn ar cyffordd ger Dyffryn Stores. Gan fod y blwch ffôn yn un hên coch, ac ei fod yn adnabyddus yn lleol, penderfynwyd e'i fabwysiadu.

c. Roedd Archwilwyr Cymru wedi cwblhau ei archwiliad am 2024-25 ac fe ddarllenwyd a derbyniwyd yr adroddiad.

Ch. Cafodd yr adrannau priodol o'r Adroddiad Blynyddol ar Gydabyddiaeth 2026-27 eu darllen.

D.Ceisiadau Cynllunio

PL/10529 – Codi storfa slyri – Panthowell, Penybont, SA33 6QN

PL/10326 - Codi tŵr slyri – Garregwen, Trelech, SA33 6DL

PL/10457 – Gorchymyn caniatad Datblygiad am storfa bwyd yn Pantyffynnooon, Trelech

7.Cyllid

Cyfrif Busnes Cyfredol £822.12

8. Unrhyw Fater Arall

Nodwyd fod tipyn o ddŵr yn rhedeg ar hyd heolydd gan nad oedd y gwteru wedi cael eu glanhau gan achosi erydiad i'r heolydd yn enwedig ger Eithinduo Isaf a rhwng Nantycyw a Pontrhyd-ddofn, Byddai'n cael ei adrodd i'r Cyngor Sir.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb a chaëwyd y cyfarfod am 9.25yh.

Bydd y cyfarfod nesaf ar yr 18ain o Fai 2026.